Brake Kids Walk with Shaun the Sheep



# Mae gan bob plentyn yr hawl i deithio'n ddiogel ac yn iach

## Annwyl riant neu ofalwr,

**Rydym ni'n cymryd rhan yn Brake's Kids Walk gyda Shaun the Sheep i gefnogi Brake, yr elusen diogelwch ar y ffyrdd.**

Mae'n ffordd wych i ni siarad am ddiogelwch ar y ffyrdd a chodi arian i helpu Brake i ymgyrchu dros ffyrdd mwy diogel a chefnogi teuluoedd y mae damweiniau ffyrdd yn effeithio arnynt.

Prif nod Brake's Kids Walk yw hyrwyddo manteision cerdded i iechyd ac achub y blaned. Mae hefyd yn ffordd wych o gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a'r gymuned leol o amddiffyn plant ar y ffyrdd.

Heddiw, siaradon ni â'r plant am sut mae gan bawb yr hawl i deithio'n ddiogel ac yn iach yn eu cymunedau heb ofn traffig neu lygredd.

Mae plant o bob oed mewn perygl o gael eu hanafu neu eu lladd wrth gerdded wrth ymyl ffyrdd. Yn 2021, cafodd 809 o blant rhwng 5 ac 11 oed eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Prydain; roedd 518 ohonynt yn gerddwyr.[1]

**Ar gyfartaledd, mae chwech o blant yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd ym Mhrydain bob dydd** – mae hynny'n cyfateb i ddosbarth cyfan o blant bob wythnos.[1]

Rydym ni'n gwneud ein rhan ni i geisio sicrhau na fydd hyn byth yn digwydd yn ein cymuned. Gallwch chi ein helpu ni drwy oruchwylio eich plentyn yn agos ar ffyrdd a pharhau i addysgu diogelwch ar y ffyrdd wrth i chi wneud hynny.

Rydym ni hefyd yn annog plant i fod yn llysgenhadon diogelwch ar y ffyrdd. Rydym ni am iddynt ddweud eu dweud am eu hawl i deithio'n ddiogel ac yn iach ac un ffordd o wneud hyn yw gofyn i oedolion helpu i'w cadw'n ddiogel wrth ymyl ffyrdd.

Mae eich plentyn wedi ysgrifennu cerdyn post yn gofyn i chi i'w helpu i aros yn ddiogel wrth groesi ffyrdd. Mae'n gofyn i chi:

- bob amser ddod o hyd i le diogel i groesi'r ffordd
- bob amser ddal ei law wrth groesi'r ffyrdd
- peidio byth â chroesi'r ffordd rhwng ceir sydd wedi parcio
- bob amser aros i'r arwydd croesi gwyrdd A gwirio ei bod hi'n ddiogel i groesi.

Gallwch chi hefyd ei helpu i aros yn ddiogel drwy:

- sicrhau ei fod yn eistedd mewn sedd plentyn addas ar gyfer teithiau yn y car
- peidio byth â defnyddio eich ffôn wrth yrru
- gyrru'n araf mewn mannau lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Siaradwch â'ch plentyn am y negeseuon ar ei gerdyn post, ac arddangoswch ei waith celf yn falch i ddangos iddo eich bod yn deall pwysigrwydd ei gadw'n ddiogel wrth ymyl ffyrdd.

Diolch am eich cefnogaeth.



I gyfrannu £3 i Brake tecstiwch KIDSWALK i 70085

Mae Brake yn gofalu am deuluoedd ar ôl damweiniau ffordd ac yn ymgyrchu dros deithiau diogel ac iach i bawb. Mae rhoddion yn ffynhonnell hanfodol er mwyn cyllido ein gwaith. Cefnogwch ni os gallwch chi.

www.brake.org.uk

**Rhagor o wybodaeth am ddiogelwch ar y ffyrdd**

Mae gan Brake lawer o ffilmiau, gemau a gweithgareddau eraill sy'n llawn hwyl i helpu plant a theuluoedd ddysgu rhagor am ddiogelwch ar y ffyrdd ar ei gwefan **www.brake.org.uk/kidswalk**

Trefnir gan Brake the road safety charity

Noddir gan esure

1. Yr Adran Drafnidiaeth (2022) Reported Road Casualties in Great Britain: Annual Report 2021, and supporting data sets.



AARDMAN, SHAUN THE SHEEP AND SHAUN'S IMAGE ARE TRADE MARKS OF AARDMAN ANIMATIONS LIMITED 2023. ALL RIGHTS RESERVED.

© BRAKE 2023